CYNGOR CYMUNED MAENTWROG

Cofnodion Cyfarfod 21 Mawrth 2023

Presennol: Lynda Massarelli, Meredydd Williams, Eurwyn Jones, Eirian Hoyle, Elfed Roberts

1. Ymddiheuriadau: Tomos Parry-Ephraim, Gareth Jones,

2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf. LM, EH

3. Materion yn codi o'r cofnodion

3.445 Gellilydan (Bron Gelli): Cyrbau, disgwyl ymateb gan ADRA.

3.446 Cae Chwarae Maentwrog: LM am wneud ymholiadau os oes cyllid ar gael, (cadw mlaen tan mis Ebrill).

3.447 Gors Fach – Pryderon Diogelwch – os ddim ymateb erbyn diwedd Ebrill, clerc i ail-gysylltu.

3.448 Cae Chwarae Gellilydan – mwy o wybodaeth i ddilyn y cyfarfod.

3.449 Mynwent Dwyryd – Gwella'r safle parcio – cadw mlaen, trefnu 'drone' er mwyn cael cynllun o'r Fynwent. LM am drefnu.

3.450 Gellilydan – plant yn defnyddio 'scooters' ar y ffordd – mae'r heddlu am 'batrolio' mwy yn y pentref.

3.451 Tir ger Gors Fach – gwaith atgyweirio angen ei wneud i'r ffens, Elfed Roberts am gysylltu a Chyngor Gwynedd. (cadw mlaen).

3.452 Archwiliad Allianz: pris wedi ei dderbyn gan GL Jones. Disgwyl canlyniad cyfarfod gyda Chyngor Gwynedd ar yr 18fed o Chwefror.

3.453 National Grid: grantiau ar gael, trafod cyfarfod nesaf, cadw mlaen.

3.454 Parcio Gellilydan: Ceir yn parhau i barcio ar linellau dwbl – Clerc i ail-gysylltu a gofyn os ydynt yn dal I fonitro'r pentref.

3.455 Bryn Arms, Gellilydan: ymateb wedi ei dderbyn gan Aled Lloyd

Atodaf asesiad ecolegol yn ymwneud a chais PIAW197M

Does dim sylw wedi ei wneud gan Cyfoeth Naturiol Cymru

Ynglŷn ar carafanau mae'r Awdurdod yn ymchwilio i'r mater a does dim caniatâd Cynllunio yn bodoli ar eu cyfer.

Clerc i gysylltu a Chyfoeth Naturiol Cymru i ofyn am gopi o'r adroddiad.

3.456 Mynwent Dwyryd - Rheolau Newydd yn cael eu gwneud, copi draft i'w hafnon i'r Cynghorwyr. Bydd angen cofnodi y Fynwent ar wahan.

3.457 Prisiau Claddu: Pob achos i'w drafod yn unigol. Mae penderfyniad y Cyngor yn derfynol.

3.458 Tendr torri gwair y Fynwent: diolchwyd i Eirian Hoyle am osod yr hysbysebion. Diddordeb wedi ei dderbyn gan bedwar person. Clerc i ysgrifennu cytundeb ar gyfer torri gwair. Cyfarfod yr ymgeiswyr yn y Fynwent, bore Sadwrn.

3.459 Ffenses Llwyn Einion – disgwyl ymateb gan Aled Lloyd o'r Parc.

4. Materion i'w trafod ar y pryd.

4.183 Mynwent Utica – Wedi ei drafod yn fanwl – rhaid gwrthod oherwydd mae gormod o waith ychwanegol a chyfrifoldeb cyfreithiol i ymwneud gyda chymeryd unrhyw fynwent drosodd.

4.184 Baw ci yn y pentref – LM mewn cysylltisd o Hefin Roberts o Gyngor Gwynedd.

4.185 Statws Cae Chwarae Gellilydan – Gethin Vaughan Jones (Cyngor Gwynedd) wedi bod mewn cysylltiad angen gwybod os oes cytundeb yn ei le rhwng Cyngor Gwynedd a'r Cyngor Plwyf. Clerc i ymateb bod yna ddim cytundeb ffurfiol yn ei le.

5. Ariannol

5.119 Gweler yr atodiad sydd wedi ei gadarnhau gan aelodau y cyngor.

Cytunwyd i dalu y canlynol:

5.120 Owain Aeron: £175 gwaith tacluso llwybr y Fynwent.

6. Cynllunio

Dim gwrthwynebiad i'r cais canlynol.

6.56 NP5/73/LB280B – Yr Hen Ysgubor, Maentwrog – Caniatad Adeilad Rhestredig - Cael gwared ar strwythur pwdra gosod rhei newydd

6.57 NP5/73/LB74S - Plas Dol-y-Moch, Maentwrog - Caniatad Adeilad Rhestredig - Dymchwel ac ail-adeiladu 2 corn simdde.

7. Gohebiaeth

8. Adroddiad o gyfarfodydd eraill

Dim newyddion

9. Dyddiad cyfarfod nesaf

16 Mai 2023 Cyfarfod Blynyddol - Plas Tan y Bwlch, Maentwrog am 7 o'r gloch.